YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1894. [RHIF 77

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. J. GWENOGFRYN EVANS, M.A.

FE ddylai y ffaith fod y Weinyddiaeth, o'r hon oedd yr Anrhydeddus W. E. Gladstone yn Brif Weinidog, wedi gweled yn dda i bennodi blwydd-dâl o £200 i'r boneddwr uchod, fod yn esgusawd digonol dros gyfeirio ato yn YR YMOFYNYDD. Mae wedi cael sylw eisoes mewn cyfnodolion ereill, megys y *Welsh Weekly*, *Cymru*, *Papur Pawb*, &c., ac nid annyddorol, dybiwn, fydd gan fwyafrif ei enwad ei hun i gael gwybod rhywbeth am y rheswm paham. Yn rhifyn Ionawr, 1893, o *Cymru*, t. 77, fe ddechreuir erthygl ddyddorol arno gyda'r geiriau hyn: "Yn mysg Cymry byw, nid oes neb wedi gwneyd cymmaint a Mr. Gwenogfryn Evans dros ddwyn trysorau Cymru Fu yn ol i oleuni dydd." Fel Cymry gwladgar, nis gallwn lai na theimlo dyddordeb yn mhob brawd o Gymro sydd wedi profi ei hunan o wasanaeth i'w wlad a'i genedl. "Dyna'r rheswm, dyna'r p'am, mae Cymru yn dy garu," ebe Ceiriog am Alaw Goch.

Wrth sylwi ar amser genedigaeth Mr. Evans, 20 Mawrth, 1852, mi gofiais yn ddisymwth am yr hen frawd hwnw, ar adeg cyfarfod pwysig yn Nghapelgroes, yn gofyn i'r Parch. John James: "Faint yw'ch oedran *chi*, Mr. James? Mr. James, faint ydy'ch *oedran* chi?" "Yr oeddwn I fel hyn a'r fel mis Chwefror, Evan." "O diar-i, 'rydych chi'n henach na fi, Mr. James; 'rych chi'n henach na fi. Mis Mawrth 'ynganed I; ie'n siwr, mis Mawrth 'ynganed I, Mr. James." "Ië, Evan bach," ebe'r Parch. John Davies, Castell Nedd, "dan arwydd yr hwrdd!" Yr oedd yr hen bobl yn tybied y gellid darllen tynghed dyn ond yn unig cael gwybod amser ei eni. Ydw I ddim yn hyddysg yn y *science* sydd yn defnyddio'r ser i ddarllen ffawd dyn; ond, pan gofiaf am y llu enwogion gawsant eu geni yn mis Mawrth, megys Ovid, y bardd Lladin gofidus; Ebenezer Elliot, bardd y bobl; Tasso,

bardd yr Eidal; Raffaele a Micel Angelo, yr hwn a ddygodd drafferth arno ei hunan drwy baintio'r diafol yn rhy ddu; Gall, y darllenwr penau; Cobbett, Laplace, Mohammed, Haydn, Descartes; Esgob Berkeley, yr hwn a ddysgai nad oedd dim fath beth yn bod a *mater*; a Dr. Priestley, yr hwn a ddysgai mai mater yw pobpeth, &c.,—pan gofiaf am yr enwogion amrywiol hyn, 'dalla' i ddim llai na choelio fod Mawrth yn gystal mis i ddyn gael ei eni yuddo ag unrhyw fis o'r flwyddyn. A phaham lai? Mae yn fis y dianc o afaelion Gauaf, yn fis y gobaith dysglaer, y Gwanwyn yn ymyl, er nad yw pob storm etto wedi pasio.

Ganwyd Mr. Evans yn Sir Gaer, o fewn ergyd carreg i glochdy Eglwys Llanbydder, ac o fewn dau ergyd carreg i afon Teifi; ond gan fod y gwynt ar y pryd o gyfeiriad yr afon, mae Mr. Evans, o ddewisiad yn gystal ag o waed, fel Dafydd ab Gwilym, yn Gardi. Cardiaid oedd rhieni ei fam. Yr oedd ei famgu yn ferch Blaencathal; ac mae rhyw ddoethawr wedi olrhain llinach ei dadcu yn ol i Cilhwch ac Olwen, ac felly wedi dyfod o hyd i esponiad tebygol o un linell amlwg yn ei gymmeriad, ei hoffder o swynion a phrydferthwch y Mabinogion Cymreig. Meddylia Gwenogfryn nad oes dim yn holl lenyddiaeth y byd mor swynol a'r Mabinogion. O bossibl fod y ffaith i'w dad gael ei eni a'i fagu yn y Fronfelen yn Pen*careg*, lle nad oes dim llawer o swn cynnaliaeth ynddo, yn esponiad ar ochr ymarferol ei natur—y *poetry* a'r *prose* wedi eu rhedeg felly i'r un sianel yn cynnyrchu gwaith sydd yn gyfuniad hapus o'r *utile* a'r *dulce*. Cardi ydyw Mr. Evans o ran dygiad i fyny, a Chadabŵen (nage, Cae Dai Bowen) yw cartref anwyl ei febyd er oedd yn flwydd oed. Yn Llanbydder, Llanwenog a Llanwnen y bu'n ysgolia, ac yn Llanbedr y bu'n treulio ei bedair blynedd o brentisiaeth, gyda'i ewythr Mr. D. Rees, Eurfaen Hall, o goffadwriaeth anwyl, yr hwn oedd hefyd yn Gardi. Dysgodd yma fod iddo alwedigaeth a gwaith arall yn y byd, heblaw pwyso swgr a the, a gwerthu cyllyll a hoelion i ferched ac i fechgyn ffermwyr. Penderfynodd fynu rhagor o wybodaeth. Felly, yn 18 oed, aeth i'r ysgol i Gaerfyrddin, at yr hynafiaethwr enwog Mr. Alcwyn Evans. Oddiyno aeth i Bont Sian, at y Parch. T. Thomas, ac ar ol hyny i Goleg Caerfyrddin. Yn 1876, cymmerodd ofal yr eglwys Undodaidd yn Parc-y-felfet, yn Nghaerfyrddin. Mae hanes ei sefydliad yn yr YMOFYNYDD am y flwyddyn hono, t. 200 a 274, yn ddyddorol iawn. Y flwyddyn ganlynol symmudodd i Preston, i gymmeryd gofal eglwys bwysig yno, a chyn hir priododd â merch i'r diweddar Brif Athraw Stephenson Hunter. Gellid tybied ei fod erbyn hyn wedi gwneuthur ei alwedigaeth a'i etholedigaeth yn sicr. Yr oedd wedi dyfod yn bregethwr nerthol, ac yr oedd yn gyflym yn ennill iddo ei hun barch a dylanwad mawr yn ei gylch newydd; ond, fel mae yn dygwydd yn fynych, pan mae'r bwriadu yn cymmeryd un cyfeiriad, fe ddaw'r trefnu o gyfeiriad arall. "Man proposes, God disposes."

Ni fu Mr. Evans erioed yn gryf ei iechyd. Lawer gwaith mae wedi bod yn teithio ar hyd Glan yr Afon. Fe wyr, drwy brofiad mynych, beth ydyw ansawdd yr awelon o'r cyfeiriad hwnw. Dair gwaith, sef

yn 1873, 5 a 7, fe'i tarawyd yn drwm gan y *typhoid fever*, ac anmharwyd ei ysgyfaint yn dost bob tro. A thrwy hynyma o'r diwedd, o herwydd colli ei lais, y gorfodwyd ef i roi'r pwlpud i fyny, a chwilio drachefn am faes newydd i'w ddiwydrwydd. Felly cawn ef yn gynnar yn 1880 yn Ngholeg Owen, yn Manchester, a thua diwedd yr un flwyddyn yn Rhydychen, yn parotoi ar gyfer yr M.A. Yma torodd llestr gwaed iddo, a bu yn ymyl marwolaeth. Cynghorodd ei feddyg ef i gymmeryd mordaith i Awstralia. Gwnaeth hyny. Ymwelodd â New South Wales a Victoria, ac ar ei ffordd adref galwodd heibio i Benrhyn Gobaith Da; ond ar ol deng mis o forwria, dychwelodd heb fod nemawr gwell. Wedi hyny, ar gynghor y meddyg etto, treuliodd rai misoedd yn Davos Platz, ond nid oedd dim yn tycio. Daeth adref, fel y tybiai ef, i farw.

Yn fuan wedi hyn, bu mor ffodus a dyfod ar draws rhestr testynau Eisteddfod L'erpwl—y *very* peth oedd yn angen arno. Yn eu plith yr oedd gwobr am "y casgliad goreu o ddiarebion Cymreig." Penderfynodd gystadlu. Ymroddodd at y gwaith *heart and soul*. Annghofiodd ei glefyd yn ei waith, a chefnodd ei feddyliau prudd arno. Pan ddaeth yr amser, gyrwyd y wobr iddo; ond yr oedd eisoes wedi sicrhau gwobr oedd fwy, mewn adferiad rhanol i'w iechyd. Nid ydym yn sicr ei fod bob amser mor ddiolchgar i'r Eisteddfod ag y dylai fod.

Yn ei waith yn casglu'r diarebion y daeth i adnabyddiaeth o'r hen ysgrifau Cymreig, y rhai y mae yn awr mor gyfarwydd â hwy, fel y mae yn cael ei gydnabod yn "greatest Welsh palæographer" yn fyw; a phan yn mynychu Dosparth Mabinogion y Proffeswr Rhys y darfu iddo sylweddoli mor anmherffaith ac ansicr mewn llawer man yw argraffiad yr Arglwyddes Charlotte Guest, yr hyn a'i gwnelai yn fynych yn anhawdd i benderfynu pynciau ieithyddol. Parodd hyny i Mr. Evans feddwl nad gwaith anmhossibl fuasai iddo ysgrifenu yr oll o'r *Llyfr Coch o Hergest* at ei wasanaeth ei hun. Fe'i gwnaeth lythyren am lythyren, a gair am air. Wedi hyny cafodd fenthyg *Llyfr Gwyn Rhydderch* o Lyfrgell Mr. Wynne o Beniarth, ac ysgrifenodd hwnw yr un modd. Cynnwys y ddau yn agos yr un defnyddiau. Wedi sicrhau y copiau hyn, gwawriodd ar ei feddwl y gallai, gyda chydweithrediad y Proffeswr Rhys, ddwyn drwy y wasg y Gyfres o *Welsh Texts*. Gyda'r gwaith hwn y mae Mr. Evans yn awr wedi treulio yn agos i ddeng mlynedd. Ystyrir cyfrolau y *Welsh Texts*, o ran manylrwydd eu golygiaeth a destlusrwydd eu hargraffwaith, y pethau perffeithiaf a ddygwyd drwy'r wasg erioed, ac y mae pob cyfrol yn welliant ar yr un flaenorol.

Ar Ddydd Gwyl Dewi, 1877, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r *Llyfr Coch*, yn cynnwys y Mabinogion. Am ei waith ardderchog gydar gyfrol hon, cyflwynodd yr athrofa iddo y radd anrhydeddus o M.A. Y llyfr nesaf a gyhoeddodd oedd *facsimile* o *Lyfr Du Caerfyrddin*, yr hynaf o'r llawysgrifau Cymreig. Yn hwn fe geir megys *photograph* o bob dalen o'r gwreiddiol, nes yw'n edrych yn union fel yr hen lyfr ei hun. Yn 1888 yr ymddangosodd hwn. Yn 1890, cafwyd yr ail gyfrol o'r *Llyfr Coch*, yn cynnwys y *Brutiau*, sef llyfrau hanesiol yr

hen Gymry. Cyhoeddwyd y pedwerydd llyfr yn 1893. Y *Liber Landavensis*, neu Lyfr Llandaf, neu Lyfr Teilo, y gelwir hwn. Cyhoeddir y cyfrolau hyn mewn tair ffurf, y Patron's Edition yn costio £2 2s. y gyfrol; y Library Edition, £1 11s. 6c.; a'r Student's yn £1 1s. Cyflwyna Mr. Evans o ddwy i dair blynedd o amser o bump awr y dydd at bob cyfrol. Y llyfr sydd ganddo ar waith yn bresenol yw Gweithiau Dafydd ab Gwilym. Bydd yn hwn lawer cywydd na chyhoeddwyd erioed o'r blaen, a thybir y bydd o leiaf un rhan o dair yn fwy ei faint nag argraffiad y Dr. W. O. Pughe. Mae llawer yn tybied mai Dafydd ab Gwilym yw y bardd mwyaf sydd wedi ymddangos yn Nghymru hyd yn hyn, ac etto, mor ychydig wyddant ddim am dano.

Heblaw y llyfrau pwysig hyn ydynt wedi eu cyhoeddi yn benaf at wasanaeth llenorion dysgedig Cymru, dechreuodd Mr. Evans ar gyn-llun er ceisio dyddori'r werin yn llenyddiaeth eu gwlad. Cychwynwyd hwn yn 1888, trwy gyhoeddi cyfieithad y Dr. Morgan (1588) o Lyfr Job yn llyfryn swllt. Bwriad Mr. Evans yn y cynllun hwn oedd arwain yr efrydydd yn raddol yn ei ol trwy bigion detholedig yn cynnrychioli pob canrif, i gynnefindra â Chymraeg pob oes. Methodd yr anturiaeth ardderchog o herwydd diffyg cefnogaeth.

Yr ydym yn ddyledus i erthygl Mr. O. M. Edwards yn *Cymru* am lawer o'r ffeithiau uchod, a chyn gorphen, nis gallwn lai na gwneuthur un dyfyniad yn dangos dull Mr. Evans o weithio:—"Y mae ganddo lawer o farddoniaeth y *Llyfr Coch* wedi ei gyssodi â'i law ei hun. Yr wyf yn ei gofio wrth y gwaith yn mharlwr Coleg yr Iesu yn 1888, ac nid annghofiaf yr olwg. Yr oedd yno danllwyth mawr o dân; er hyny, oeraidd oedd yr ystafell, o herwydd ei maint, mae'n debyg. Dodrefn wedi eu gwisgo â melfed coch, ac ni chlywech eich troed yn y carped esmwyth oedd ar y llawr; ond yn nghongl yr ystafell, yr oedd fram argraffydd heb erioed weled paint. Y fram a'r *cases* o ffawydd gwyn glan newydd; y copi uwch eu pen yn llyfr at faint Beibl Peter Williams, a'i ddalenau croen wedi melynu gan oed o 500 mlynedd. O flaen y fram y safai Gwenogfryn yn dal *composing stick* yn ei law; het ffelt, esmwyth, lydan, lwyd, am ei ben, a thipet lwyd laes dros ei ysgwyddau; diwyg mor annhebyg i ddiwyg parlwr ag oedd hi i wisg gyffredin cyssodydd, ond diwyg eithaf cydweddol â rhamant y gwaith, a mwy na dim, un anhebgor iddo ef yn yr ystad o iechyd oedd ynddo. Ac yma dylaswn ddweyd fod y rhan fwyaf o'r holl waith a nodais—y copio, cyssodi, parotoi i'r wasg, cywiro profleni, gwneyd *indexes*, cymharu llawysgrifau, ysgrifenu, gohebu—wedi ei wneyd mewn cyflwr o iechyd na fuasai neb arall braidd yn meddwl ond am ei wely; yr oedd ardymheredd ei gorff, pan gopiai'r Mabinogion, yn ddigon uchel y buasai'n angeu i lawer un. Bu agos i'r *influenza* ei dori i lawr ddwy waith neu dair; ond er gwaethaf hyn, ac afiechyd nychlyd hen, dal y mae i weithio'n ddewr a chalonog. Mawr yw grym meddwl penderfynol; a gall fod llafur diflino ac anmhrisiadwy Mr. Evans dros lenyddiaeth Cymru yn rhyw help i'w gadw yntau rhag suddo."

Mae yn mryd Mr. Evans, os estynir "pwythyn bywyd" iddo yn ddigon hir, i gyhoeddi corff cyflawn o farddoniaeth Gymreig o'r amser-

oedd boreuaf hyd amser Tudur Aled. Gobeithiwn y bydd efe a'r Gymraeg fyw nes gorphen yr anturiaeth. Os na, ni ryfeddwn ni ddim na wnaiff e, os gall, fel mae General Booth yn bygwth gwneyd, dyfod yn ol megys *spook* i barhau ei ymdrechion.

Secret llwyddiant Demosthenes fel areithydd, meddai hanes, oedd —1. Gwaith; 2. gwaith; 3. gwaith! A dirgelwch llwyddiant Gwenogfryn yw *gwaith*, GWAITH, GWAITH! Nid yw yn credu fod dim yn tycio fel gweithgarwch diwyd, neu ddiwydrwydd gweithgar. Gydag ef *genius* yw y dalent o ddyfal weithio. *Downright honest, hard work* yw yr unig athrylith o werth. Pan ofynid i Mr. Rees Evans, Toncoch, yn 86 oed, Sut yr ych chi, Mr. Evans, ei ateb *dimofal* oedd, Cystal byth y galla I. "Cystal byth y galla I" yw rheol Gwenogfryn gyda'i holl waith. Cystal byth y galla I oedd rheol Phidias, cerflunydd pena'r byd (tua 450 cyn Crist) pan yn adeiladu'r Parthenon yn Athen—nid yn unig gyda'r hyn oedd yn y ffrynt yn y golwg o'r cerfluniau, ond gyda'r hyn oedd allan o'r golwg yn o gystal, a'r hyn a fyddai yn aros allan o'r golwg, cyhyd ag y byddent yn parhau i gyflawnu eu tynghed. Pan aeth y Parthenon yn hen fagwyren, yr oedd manylrwydd gorphenedd pob rhan yn syndod pawb. Wrth gwrs, nid wyf am foment am awgrymu mai yn y Toncoch y dysgodd Gwenogfryn na Phidias y wers ardderchog. Ond dyma hi—gwers bywyd Gwenogfryn i *Young Wales*—Whatever is worth doing at all is worth doing well—Pa beth bynag yr ymaflo dy law ynddo, gwna ef â'th holl egni—Cystal byth y gallot! J.

I'R PARCH. R. J. JONES, M.A.

Ar ol gweled y darlun.

Y DYN bach sy'n dwyn y beichiau—wele'i
Wedd wywlan a'i wydrau;
Mae'n ddiwyd o hyd yn hau
In' addas wirioneddau.

Dyn bach *mawr*, mae'n gawr'n ei goryn—didwyll
Undodwr diddychryn;
A pharod iawn offeryn
Yn llaw Duw i wella dyn.

Noddwr pob gwirioneddau—yw'n harwr,
Mae'n herio gaudybiau,
A duon hen gredoau;
A dyrnau'r gwir darnia'r gau.

Tyn y iasau o'r tân ysol—dengys
In' dynghed mwy unol
Y difeth gariad Dwyfol
Amlena ni'n mlaen a 'nol.

Dyrys bwnc y dyn a'r mwnci—a fu
Yn faes wnaeth arloesi,
A'i lonaid o oleuni
Ar ddeddfau a rhodau Rhi.

Heb oedi mewn corsydd bydol—yr a
Mewn rhwysg egwyddorol
At y nôd—tasg ormodol
I dri naw ei droi yn ol.

Efe yn Yr Ymofynydd—a fu'n
Fanol ysgrifenydd,
A dilôg frwd olygydd—
Llafur cariad rhad a rydd.

Gwr o nôd yn mysg'r Undodiaid—haul yw
A'i lewyrch yn danbaid ;
Llafuriwr, coeth wr fe'i caid ;—mae geiriau
Ei fawl emynau yn fêl i'm henaid.

Llawn wr yn mysg llenorion—ni welwyd
Anwylun mwy ffyddlon ;
Cristion mad, difrad ei fron—
Heddgarwr haedda goron.

Jas. Evans.

PETHAU AMHEUS A PHETHAU SICR.

Mae meddwl yr oes bresennol wedi ei aflonyddu yn ddirfawr gan y darganfyddiad nad oes mewn crefydd, yn fwy na phobpeth arall, ddim sydd yn hollol sefydlog ac annghyfnewidiol. Ni ddylasai y darganfyddiad achosi ofn, ac ni wna pan y deallir ef.

Yn y bywyd dynol nid oes dim sydd yn sefydlog, dim yn arosol, dim yn annghyfnewidiol. Mae cyfnewidiadau o ddau fath—cyfnewidiad tyfiant, a chyfnewidiad marwolaeth. Mae rhai pethau yn cyfnewid am eu bod yn *myned* ; ereill am eu bod yn *dyfod*. Mae adnod felan colaidd yn yr hen lyfr, yr hon yn fynych a gamgyfleir : "Sicrha y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw" (Datguddiad iii. 2). Nid yw y cyfeiriad at bethau mawrion crefydd ei hunan, ond at gyflwr ein ffydd a'n gobaith ni. Am grefydd ei hunan, gallwn anturio dyweyd : Sicrhewch yroch eich hunain y pethau sydd yn ol, am nas

gallant farw. Ni fu'r byd erioed mor gyfoethog mewn ffydd ag yw yn awr. Ni fu ffydd erioed yn gorphwys ar sail mor gadarn, ac ni fu gan grefydd erioed y fath allu dros fywydau ac amgylchiadau a chenedlodd ag sydd ganddi heddyw.

Mae'r byd heddyw wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn awdurdod offeiriad ac eglwys a chredo. A dahyny. Mae awdurdod eglwysyddol o bob math wedi colli ei dylanwad ar bobl o addysg. Y sawl ydynt yn ymladd i gadw gafael ar awdurdod eglwys a chredo ac offeiriad, maent yn ymladd brwydr i golli, brwydr yn erbyn greddfau ardderchocaf yr hiliogaeth. Mae hen awdurdod ffurfiol ac annaturiol yr eglwys wedi tyfu i'w maintioli aruthrol yn unig i syrthio a diflanu; ond y mae awdurdod crefydd yn esgyn i ffurfiau newyddion o dyfiant, ac ni ddiflana byth.

Daw gwirioneddau mawrion i'r byd yn gyntaf megys breuddwydion, daw'r breuddwydion yn obeithion, y gobeithion yn argyhoeddiadau, yr argyhoeddiadau yn orchymynion, ac o hyny allan llywodraethant ar fywyd dyn. Ar y cyntaf cynnorthwyir y gwirioneddau yma gan awdurdod allanol, ac o'r diwedd deuant yn sylfaen yr awdurdod. Ac yn awr ceir fod meddwl a theimlad crefyddol y byd wedi cyrhaedd y safon hono o dyfiant, yn yr hon y maent ar eu haeddiant eu hunain, mewn modd na wnaethant erioed o'r blaen, yn dechreu ar eu gwaith i lywodraethu ar fywydau dynion; ac wrth hyny, yn cychwyn ar yrfa yn yr hon y bydd i awdurdod grefyddol fyned ar gynnydd nes daw y byd i roddi ufudd-dod ewyllysgar.

Wrth gofio hyn, mae yn hen bryd i ryddymofynwyr crefyddol geisio dangos sylfaen newydd awdurdod, a'i dwyn i ymarferiad. Os bydd eglwys, yn ei dewisiad o weinidog, yn cyflawnu eu dyledswydd, ei fai ef fydd, ac arwydd o'i annghymwysder, os llefara fel dyn cyffredin, gan draethu ei opiniynau personol ei hunan, tra y mae ei wrandawyr at eu rhyddid i dderbyn neu i wrthod, fel y mynont. Os ydynt hwy wedi cyflawnu eu dyledswydd, ac os yw yntau wedi cyflawnu ei ddyledswydd, mae yn llefaru wrthynt megys â llais argyhoeddiad cyffredin, gobaith cyffredin, a chydwybod cyffredin y bobl. Ffydd, Gobaith, Cariad—dyna ei bynciau mawrion. Wrth lefaru ar y pynciau yma, fel mae ganddo hawl i lefaru, mae yn llefaru gydag awdurdod—awdurdod nad yw eiddo ef.

Yn awr, er mwyn esponio ein hathrawiaeth am ryddid, am hawl barn bersonol, a'r rhyddid a hawliwn ac a ymarferwn oll, mewn meddwl, llafar, a gweithred, rhaid gwahaniaethu rhwng opiniwn a chred. A'i gymmeryd yn yr ystyr gyffredin, y mae opiniwn yn dynodi ffurf wanach o argyhoeddiad na chred. Defnyddiwn opiniwn i ddynodi yr hyn a ystyriwn yn debygol, a chred i ddynodi yr hyn a ystyriwn yn sicr. Pleidiwn ryddid meddwl, a barn bersonol, am y credwn eu bod yn arwain at sicrwydd cred ac awdurdod moesol.

Ond awgryma hyn fod gan yr eglwys a'r gweinidog ryw sylweddion mawrion y gallant yn hyderus ymddiried ynddynt, fod yn yr oes ddiweddar yma o newydd deb, amheuaeth, a dinystr ar hen pethau, tra mae credoau yn myned ymaith, a gwyddor yn tyfu, y gallu etto i

wybod am sylweddion y bywyd ysprydol, ac ymddiried ynddynt, ac nad beth fyddo yn cyfnewid ac yn darfod, y gallwn etto gadw yn ymyl y cyssegr lle mae cuddiant gallu Duw. Hyn a ddaliaf. Y mae ffydd gyffredinol, gobaith gyffredinol, dyledswydd gyffredinol, y rhai ydynt sylweddol am eu bod yn cynnrychioli rhanau sylweddol o'r natur ddynol; y rhai a barhant, gan nad oes ond cyfnewidiad tyfiant yn unig yn pasio drostynt; y rhai ydynt gyrhaeddadwy, am eu bod yn awr yn cynnyrchu yr elfenau ardderchocaf yn mywyd dyddiol pawb dynion o feddwl iachus.

Nid yw yn canlyn, fodd bynag, am fod y pethau yma yn syml ac yn sicr, eu bod yn wastad yn ganfyddadwy, yn fwy nag y mae gallu-oedd mwy bywiog a mwyaf parhaol ein bywyd anianol yn ganfyddadwy. Rhaid fod i'r gweinidog rhyddfrydig heddyw ei amheuon lawer; rhaid iddo wynebu anhawsderau lawer, ymostwng i weled llawer o ffugion anwyl yn myned heibio. Ond os bydd yn wylaidd, yn ffyddlawn, yn gywir, fe arweinia hyn oll ef i'r man lle y gall lefaru gyda'r awdurdod y mae ei bobl wedi ei wneuthur yn offeryn iddo. Efe a lefara yr hyn bethau y mae dynion yn eu gwybod ac yn eu cyffesu, ond yn methu eu cyflawnu. Efe a dyn allan o guddfanau'r galon yr argyhoeddiadau nad ydynt erioed wedi eu defnyddio, y crediniaethau nad ydynt erioed wedi eu llefaru, y gobeithion nad ydynt erioed wedi eu hadnabod, y delfrydion *(ideals)* nad ydynt erioed wedi eu sylweddoli, dyledswyddau nad ydynt erioed wedi eu cyflawnu. Efe a'u geilw yn ol atynt eu hunain. Efe a lefara, nid fel y clywont opiniynau o'i eiddo ef, ond fel y clywont lais eu dynoliaeth eu hunain, yn llefaru gydag awdurdod Dwyfol. Lle mae'r bobl yn gwrando felly, a'r gweinidog yn llefaru felly, yno y mae'r Efengyl dragwyddol yn cael ei phregethu.

Pe ceisiwn yn awr i osod ger bron y ffydd a'r gobaith cyffredin yma, pallai gofod ac amser i mi, gan fod seiliau crefydd mor eang â holl faes gwybodaeth a bywyd dynol. Dewisaf, gan hyny, un pwnc, a hwnw yn un y dadleuir yn ei gylch yn mhob man, sef datguddiad Duw yn Nghrist.

Sylwer ar y dadleuon sydd yn cael eu cario yn y blaen yn mhob cyfeiriad, a sylwer ar enwau y cewri sydd yn dadleu. A ddichon fod sicrwydd lle maent hwy yn annghytuno? Anturiaf ddweyd, ond gyda phob gwyleidd-dra, gan gofio y gwahaniaeth wyf wedi wneuthur rhwng opiniwn a chred, y gallwn gyrhaedd sicrwydd sylweddol hyd y nod yn y pethau yma. Ond noder nad yw'r ddadl ddim yn gyntaf yn nghylch sylweddion addysg yr Iesu, ond mewn perthynas i ddygwyddiadau ei fywyd a'i farwolaeth. Cofier y gwahaniaeth cyntaf hwn. O berthynas i berson, natur, swydd, gwaith, a gwyrthiau yr Iesu, ac ar bwnc yr hanesion a roddant i ni yr adgof prin o'i fywyd, y mae, ac fe fydd hyd ddiwedd amser, wahaniaeth opiniwn, yn gymmaint nad y gwirionedd ei hunan yw y pethau yma, ond yr amgylchiadau a ddygir ger bron i brofi dyfodiad y gwirionedd i'r byd.

Edrychwn yn ol at ddechreuad Cristnogaeth megys pe'r edrychem at godiad haul ar fore niwlog yn Mehefin. Gwelwn y goleu, y lliw, y

newid, y dirgelwch, y gogoniant, a ffresni dydd newydd. Ond nid oes yr un terfyngylch sefydlog. Nid oes un ffin arosol. Nid oes un weledigaeth eglur yn bossibl. Mynai'r painter sefydlogi'r olygfa. Ond cyn ei fod yn dal dirgelwch ei gogoniant, mae wedi rhoddi lle i syndod newydd o brydferthwch. Ond sylwer yma. Mae'r cyfnewidiadau o ddau fath—cyfnewidiad y peth hwnw sydd yn dysgleirio yn niwl y bore fel mae'n pasio, a chyfnewidiad yr haul y tucefn i'r niwl, fel y mae'n dodi ymaith wisgoedd cymmylau ei ogoniant, ac yn ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa. Felly y mae gyda dechreu Cristnogaeth. Yn yr hanes cawn y dirgelwch, y gogoniant, a'r ansicrwydd ydynt yn wastad yn nodweddu dechreuad mawredd. Am enedigaeth yr Iesu, parhad a threfn ei weinidogaeth, lle a ffurf ei addysg, nid oes dim sydd y tu hwnt i amheuaeth. Dwg pob mis i ni gydgordiad newydd, ac esponiad sydd yn myned i benderfynu pob pwnc unwaith ac am byth; ond nid oes yr un yn goroesi ei awdwr, ac wedi 18 canrif yr ydym mor bell ag erioed oddiwrth bortread cywir o wir fywyd yr Iesu.

Y mae hyn oll yn gorwedd ar faes opiniwn a dadleuaeth. Wrth ddelio â'r fath gwestiynau daw'r cynneddfau yn fwy cyflym, gyrir ofergoeledd ar ffo, a deffroir dyddordeb dyfnach. Ond nid sylweddion Cristnogaeth yw'r pethau yma, na sylweddion ffydd dyfiannol dynoliaeth. Nid y rhai hyn yw y gras, y trugaredd, a'r gwirionedd a ddaethant trwy'r Iesu. Ni waeth sut y penderfynir y pynciau hanesyddol, nid oes eisieu fod un amheuaeth o barthed i sylwedd addysg yr Iesu. Ffydd yn Nuw, cred yn y bywyd anfarwol, hyder fod yn mhob dygwyddiadau a chyfnewidiau, yn mhob nerth a gallu, mewn bywyd ac yn angeu, mewn llawenydd a thristwch, mewn heddwch a rhyfel, poen a phleser, yn mhobpeth sydd wedi bod, neu sydd yn awr, neu a fydd byth, yma ac yn mhob man arall, un pwrpas o ddoethineb yn gweithio tuag at amcanion gogoneddus i ddyn,—dyma elfenau ffydd dyfiannol y byd, a ddysgir yn eglur yn newyddion da yr Iesu, ac a geir heddyw yn mhob eglwys ac yn mhob gwlad.

Tyner ymaith bobpeth a fyno y feirniadaeth fwyaf eithafol, ac y mae'r un ffaith sylweddol yma yn aros hwnt i bob amheuaeth,—fod y goleuni mawr a sanctaidd hwn wedi dysgleirio allan o Judea. Mae yn parhau i ddysgleirio heddyw, am mai dyna oedd, a dyna yw amlygiad naturiol ac uwchaf gobaith a dyhead. Llefarai'r Iesu gydag awdurdod am ei fod yn rhoddi yn ol i bob dyn ei feddwl goreu ei hun mewn ffurf mor berffaith fel yr oedd ei wrandawyr yn synu at ei arddunedd. Llefarai gydag awdurdod am ei fod yn cyhoeddi egwyddorion ydynt yn esponio gobeithion cyffredinol. Llefarai gydag awdurdod am ei fod yn traethu nid ei opiniynau ei hunan yn unig, ond argyhoeddiadau—argyhoeddiadau ydynt yn dyfod i'r hiliogaeth trwy gyffyrddiad â sylweddion. Gall opiniynau fod yn bwysig. Ond cyhyd ag y byddant yn bersonol ac yn unigol, nid ydynt o fawr pwys. Mae gan ddyn berffaith hawl i'w farn a'i opiniwn ei hun ar bob pwnc. Ond, er enghraifft, am ei opiniwn personol am ffurf y ddaear, a pha un ydyw yn myned oddiamgylch i'r haul, neu a oes y

fath beth a deddf dysgyrchiad, gwell iddo ei gadw iddo ei hun, os ydyw yn groes i'r gred gyffredin.

Yn awr, wrth wneuthur ymchwiliad i farn dynion am Gristnogaeth, cawn eu bod yn rhanedig i ddau ddosparth. Ar y naill du, y mae opiniynau, heb ddim cytundeb na dim sicrwydd; ar y tu arall, y mae argyhoeddiadau nad oes amheuaeth yn eu cylch.

Gosodwn gerbron ychydig opiniynau yn gyntaf, ac wedi hyny argyhoeddiadau, a daw'r gwahaniaeth yn amlwg. Ar y naill du bethau sicr, ar y tu arall bethau ansicr, yn addysg yr Iesu.

1. Mae yr hyn a ddysgodd yn nghylch dinasyddiaeth, llywodraeth, meddiant, yn amheus. Nid oes dim amheuaeth beth a ddysgodd am gariad, cyfiawnder, rhyddid, a hawl cyfartal pob dyn i etifeddiaeth megys plentyn Duw.

2. Dadleuir yn nghylch yr hyn a ddysgodd am fodolaeth a gallu diafol personol; ond nid oes dim amheuaeth ei fod yn credu mewn Duw o gariad a gallu a doethineb.

3. Amheuir a oedd efe yn credu y deuai ar gymmylau'r nef i farnu'r ddaear; ond nid oes dim amheuaeth iddo gyhoeddi egwyddorion cyfiawnder a barn, wrth y rhai y bydd yn rhaid i bob dyn sefyll neu syrthio.

4. Mae dynion yn gwahaniaethu pa un a oedd neu nad oedd yn credu yn nhragwyddoldeb cosp; ond nid oes neb yn amheu iddo ddysgu fod deddfau bywyd da, a sicrwydd ad-daliad yr un yn mhob byd ac i bob sefyllfa a chyflwr o ddynion.

5. Sefydlir eglwysi yn wrthwynebol i'w gilydd ar wahanol esponiadau yn mherthynas i'w hawl i awdurdod a'i ofyniad am warogaeth personol iddo ei hun. Ond nid ymddengys fod neb yn amheu ei fod yn gosod yn flaenaf ufudd-dod i ddeddf dyledswydd, ac yn gwneuthur cydwybod dyn yn orsedd yr awdurdod Dwyfol.

6. Mae opiniynau yn gwahaniaethu pa un a ddarfu iddo, o ran ei gorff a'i waed, godi oddiwrth y meirw ai naddo, a pha un a ddarfu iddo ddysgu adgyfodiad ein cyrff ai naddo. Ond nid oes neb byth yn amheu a ddarfu iddo ddysgu anfarwoldeb dyn.

Dyma chwech o bynciau ag y mae addysg yr Iesu yn eglur ac yn amlwg arnynt; a chredaf eu bod yn bwysig.

(1) Duw byw; (2) Dyn yn blentyn iddo; (3) Cyfiawnder y ddeddf oruchaf; (4) Ad-daliad i bob dyn yn ol ei waith; (5) Dyledswydd yn brawf ymddygiad; (6) Anfarwoldeb yn rhagolwg.

Ond, yn awr, mewn tegwch perffaith, rhaid i bwnc arall gael sylw. A chaniatau fod y byd yn cyduno i'r Iesu ddysgu'r pethau yma, a ydyw'r byd yn cyduno eu bod yn wir? Atebaf (1) fod mwy yn cyduno ar hyn yma nag ar un pwnc arall o grefydd; (2) a pheth sydd i mi yn llawer mwy pwysig, dyma'r argyhoeddiadau sydd yn myned ar gynnydd yn y byd. Y mae tueddbeniad y goleuni yn y cyfeiriad yna; (3) ac yn fwy argyhoeddiadol fyth i mi, yw'r ffaith, nad oes iddi hyd y gwn i, yr un eithriad—fod pawb dynion gwybodus, yn Iuddew a chenedl-ddyn, Cristion ac amheuwr, y dyn doeth a'r dyn cyffredin, oll yn cyduno, os yw y bydysawd yma y math goreu o fyd-

ysawd, y byddai'r addysgiadau yma yn wir. Cyduna pawb eu bod yn gosod allan obeithion naturiol a chyffredinol dynoliaeth. Cyduna pawb y byddent yn ddedwyddach, y byddai'r byd yn ddedwyddach, pe gwnelai pawb fyw yn unol â'r addysgiadau plaen yma o eiddo'r Efengyl.

I mi mae'r ystyriaethau yma yn penderfynu'r mater heb achos prawf arall. Os gallaf gael allan beth ddylai fod yn wir, yr wyf yn foddlon credu ei fod yn wir. Mae'r bydysawd yn gynnyrch doethineb a synwyr, ac nid yn gynnyrch annhrefn. Mae yn rhy fawr a gogoneddus, trefnus a phrydferth yn nhreigliad arferol a mawreddog ei allu, i ganiatau un eithriad yn nghyfeiriad dyn, yr hwn, oddieithr fod darpariaeth wedi ei wneuthur ar ei gyfer, a fyddai yr un blotyn ar y bydysawd, yr un elfen o annhrefn mewn cyfundrefn o bethau ydynt o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb yn cyhoeddi gallu sydd yn gweithio o hyd dan ffurfiau deddf arddunol a phrydferth ac annghyfnewidiol. Os byddai'r athrawiaethau yma yn wir yn y byd goreu y gellid ei amgyffred, yna maent yn wir yn y byd yr ydym yn byw ynddo,—oddieithr, yn wir, ein bod wedi esgyn ar war pethau, ac oddiyno yn gallu edrych draw i ddyfnderoedd doethineb mwy nag a fyddai yn rheidiol i ddadblygiad y byd gweledig hwn sydd wedi ei osod yn y gyfundraeth yma o heuliau a sêr. Trist i mi yw meddwl am ddyn, ar ol cael ei ddwyn yn deg wyneb yn wyneb â'r athrawiaethau sylweddol yma, ar y rhai y cyffesir fod dedwyddwch uwchaf a chynnydd yr hiliogaeth yn dybynu, yn dweyd: Mae y pethau hyn yn dda, maent yn rhesymol, dylent fod yn wir; ond och! yr wyf fi wedi arfer dybynu ar brawfion y gallai tyst mewn llys cyfraith gymmeryd ei lw arnynt, ac felly, nis gallaf gredu. Mae'n dost meddwl hyn, gan ei fod yn golygu rhoddi i fyny y rhan oreu o'n natur foesol i lywodraeth y gynneddf resymiadol; a pheri i ni braidd ddweyd gyda De Quincey mae y dealldwriaeth yw y gwaelaf o gynneddfau dyn.

Ar yr awgrymiadau mawrion yma o eiddo yr argyhoeddiadau moesol a gobaith cyffredinol dynoliaeth, gall ~~gweinidog~~ Iesu Grist gymmeryd ei safle yn ddiofn, a llefaru gydag awdurdod, gan gymhell ei hunan ar gydwybod pob dyn. Ac er iddo fethu rhoddi *prawf* i bob amheuwr, gall wneuthur yn well, trwy ennill o'i du galon a chydwybod, a gobaith pob gwrandawr. Ni fydd yn gwneuthur yr awgrymiad gyda phryder—Gobeithiwch os gallwch; ond efe a ddywed, y mae yn rhaid i chwi obeithio, os ydych yn ddynion. Rhaid i chwi gredu, os ydych yn rhoddi cyfleusdra i holl ranau eich natur i lefaru. Pan mae'r ~~gweinidog~~ yn awgrymu y *dylai* cariad lywodraethu y byd, nid yw yn llefaru un opiniwn personol o'i eiddo ei hunan yn unig. A phan y dywed y *gwnaiff*, mae yn haeru peth ag y mae miliwn o weithiau fwy o brawf drosto nag sydd y cwyd yr haul yfory, neu y daw y borfa ar ol y gwlaw. Am hyny meddaf, pan y gwyddoch eich bod yn meddwl yn yr iawn gyfeiriad, pan y gwyddoch fod eich gobeithion yn deilwng, pan y gwyddoch am yr hyn y dymunech ei fod yn wir, y dylai fod yn wir, pan fyddoch yn ffrydlif y gobaith a'r dymuniad cyffredin a dysgwyliad cydwybodol dynoliaeth, yna peidiwch

pryderu gadael eich hunan i fyned yn y cyfeiriad hwnw gyda'r holl allu a feddwch. Dyna gyfeiriad tyfiant moesol. Dyna brif ffordd llawenydd, y ffordd sydd yn myned yn ddysgleiriach, ddysgleiriach, hyd at y perffaith ddydd. Ar hyd y brif-ffordd freiniol hono cewch gwrdd â meibion a merched etholedig dynolryw. Yno mae'r beirdd, y proffwydi, y gweledyddion, yr arwyr, yr ardderchog lu a wnaethant fywyd yn ddysglaer—maent oll yno. Y dewrion, y synwyrlawn, y rhai calon-gyfan, y rhai ydynt i arwain cynnydd y dyfodol, fe'u ceir oll ar y brif ffordd yma o ffydd a gobaith. A hyn a ddywedaf nid fel crediniwr Cristnogol yn unig. Un o gasgliadau mwyaf amlwg darganfyddiad a rhagweledïad diweddaf yw, fod yn rhaid i ddadblygiad yr hiliogaeth redeg ar hyd llinellau eu gobeithion uwchaf. Y dynion a'r cenedloedd ydynt yn gobeithio a barhânt. Y dyn diog, digalon, diobaith, fe'i gadewir ar ol, fe'i sethrir yn yr ymdrech am fodolaeth, a'r ymgais am gynnydd. Trwy obaith ein achubir. Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; ond gair ein Duw ni a saif byth.

Mae'r athrawiaethau yma oll yn rhan o addysg yr Iesu, a gellir eu symio i fyny mewn dau ymadrodd—Tadoldeb Duw, Brawdoldeb Dyn. Fe chwery yr ymadroddion yma ran bwysig yn y dyfodol. Deuant yn arwyddeiriau ac yn gadlefau. Dynodant eisoes y llinellau ar y rhai y bydd cymdeithas yn ail drefnu ei hunan. A bydd yr hwn a allo o'i galon, gyda chydsyniad ei reswm, ac adgyfnerthiad ei gydwybod, osod tipyn o frwdfrydedd yn y geiriau yma, geiriau rhyddid a chynnydd, bydd hwnw ar yr ochr fuddugoliaethus, bydd ganddo achos na fu erioed un mwy gogoneddus, nac un â mwy o ysprydoliaeth ynddo.

G. Bachelor.

PEDWAR ENGLYN I'R DIWEDDAR MRS. D. T. DAVIES, EURFAEN VILLA, LLANBEDR.

Testyn Cyfarfod Cystadleuol Brondeifi, Rhag. 20*fed*, 1893.

[Y Goreu.]

Mirain oedd fel morwyn Nêr—un i'w gwr
Fu'n goron bob amser;
A da, uniawn, fam dyner,
Hynaws fu yn ei hoes fer.

O'i chryd bu'n frwd ei chredo—Yn y Duw
Nad oes lid na digio;
Yn astud gwnaeth ymffrostio
Erioed yn ei gariad O.

Galar sy'n Llanbedr a gwelwi—yn llwfr
Am y llais fu'n gweini;
Dihafal yn Brondeifi
A chun iawn oedd ei chân hi.

Ni chlywir ei chu alawon—yma
Aeth ymaith "wraig ffyddlon"
O "*villa*" lawn gofalon
I "*Villa*" well i foli Ion.

Llanwenog. GWARNANT WILLIAMS.

[AIL OREU.]

Meistres Dafis gludwyd isod—i'r llwch,
Er llef plant a phriod;
Oedd fenyw wâr, addfwyn od,
A'i henw'n glodfawr hynod.

Yn nheulu Ion eleni—mae oer waedd;
Mor wag yw Brondeifi!
Bu'n chwaer hoff, *a hoff oedd hi*,
Yn hwn yn fawr ei hyni.

A'i swynol lais synai lu—yn y côr,
Yn y cwrdd bu'n allu;
Ar y llwyfan bu'n canu
Melus gerdd, mal eos gu.

Y gwan o'i hol a gwyna—nawdd y gwreng
Oedd gwraig Eurfaen Villa;
Uwch y 'rhod' i'r Duwdod da
Alaw swynol a seinia.

SENEX.

ADGOFION BOREU OES.—I.

MAE bywyd naturiol y plentyn, meddai un ysgrifenydd enwog, yn ddelw wan o'r bywyd perffaith yn yr hwn y cawn ni feddiannu pob peth gyda y llawen ddiniweidrwydd hwnw sydd yn gallu creu y cyfan yn eiddo iddo ei hun. Yr wyf yn cofio'r amser pan, yn fy hapusrwydd diniwed, yr etifeddwn y ddaear. Yr oeddwn yn berchen ar bobpeth y syrthiasai fy llygaid arno drwy y llawenydd a roddasai i mi, a thrwy fy nghariad tuag ato. Nid oedd y cyfoeth hwn yn dwyn poen ac hunangarwch i'r galon ddilwgr ac aneiddigeddus. Yr oedd tymher addfwyn fy enaid yn rhoddi i mi y ddaear a'i gwybrenau, pob blodeuyn,

pob llethr mynydd, pob coed-lanerch ; yr holl gymmylau a'r ser ; aur yr haul-fachludiad, a pherlau ei gyfodiad. O'r dedwyddwch a gawswn wrth wel'd y mynydd yn troi'n lâs yn y gorwel, neu'r bledeuyn tlws yn gwthio'i ben egwan i'r goleuni. Ar bob newydd-ddygwyddiad fel hyn, deuai'r holl fyd yn fyd newydd. Onid y gwir grëwr ydyw'r plentyn?

O, dymhor dedwydd ! O na fuaset yn para ! Ac O, ac O, na fuasem yn alluog, ys dywedodd y bardd, i edrych ar bobpeth mewn nefol ddychymyg ; edrych ar ein hunain ac ereill megys ag yr ydym yn edrych ar y dysglaer ser, ac yn meddwl mai cerddoriaeth yw eu dystawrwydd, fel na fyddai i unpeth anmhur allu cyrhaedd uchel binacl ein meddyliau, yn y rhai y gwnelem fyw wedi ein gweddnewidio.

Wel, mae'n rhaid symmud cam yn mlaen oddiwrth y tymhor dedwyddolaf ac anymwybyddol hwna at dymhor maboed, pan oeddwn grwt, o bossibl tua 12 mlwydd oed. Yr wyf yn cael fy mod, erbyn hyn, yn graddol ddyfod wyneb yn ngwyneb â sylweddau caletach bywyd. Yr oeddwn yn fod hwyrdrwm, breuddwydiol, ac annghymdeithasol iawn. Nid oedd a fynwyf a chwareu hefo cymdeithion boreu oes. Yr oeddwn yn angerddol o swil a thawedog, ac yn neillduol o araf yn mhobpeth. Yr oedd i mi frawd, tair mlwydd yn ieuangach, ac elem ein dau law-yn-llaw i'r ysgol gyda'n gilydd. O ran dullwedd ac anianawd, yr oeddem yn begynau gwrthgyferbyniol—efe yn neillduol o ffraeth ac effro, minau i'r un graddau i'r gwrthwyneb.

Ymddengys fod fy mrawd, hyd y nod yn yr oedran plentynaidd a nodais, ag ymwybyddiaeth falch o'i ragoriaeth arnaf. "Paham nad ydych yn dysgu eich gwers ?" gofynai'r ysgolfeistr iddo y diwrnod cyntaf y daeth i'r ysgol yn fy llaw, pryd yr atebodd yntau mai nid d'od yno i'r dyben o ddysgu a wnaeth, ond i'r dyben o gymmeryd câr o honof fi.

Yr oedd rhyw yspryd melancolaidd ac wylofus iawn yn fy meddiannu yn ystod y blwyddi boreuol hyn. Yr oeddwn, fynychaf, yn llefain wrth fyn'd i'r ysgol, ac hefyd wrth ddychwelyd, nes o'r diwedd i'r plant osod ffug-enw arnaf : "Corn hela." Ond, efallai fy mod yn cael fy nghyfiawnhau i syrthio i'r trosedd hwnw yn bur aml ; oblegyd mynych y gwnelent fy nghuro yn ddiachos.

Dyma un o'r pethau cyntaf yn fy mywyd wyf yn gofio, ac yr wyf yn ei gofio megys doe. Yr oedd fy nghefnder Benjamin a'i dad wedi d'od yn foreu un dydd Sul i'n gweled o Rhydyfro, ger Pontardawe. Yr oedd B. tua'r un oed a mi fy hun, ac yn hoff iawn o fy nhad, ei ewythr Job. Wedi iddynt gyrhaedd Pentregwenlais—pentref lle'r oeddem ni yn byw—dygwyddodd i fy nhad ffeindio nyth yr hwyad, ac wy ynddo, ar ben tomen ludw un o'r cymmydogion, ac yr oedd B. yn dygwydd bod yn dyst o'r darganfyddiad. Yn awr, yr oedd fy nhad yn ben-foel oddiar pan yn ddyn ieuanc 21 oed, ac ar y Sul crybwylledig, yr oedd dau neu dri o gornwydydd bychain yn dygwydd bod ar ei ben. Y prydnawn hwnw, yr oedd yr hen Forris o'r Warren yn dygwydd bod yn pregethu yn y pentref, a hyny, am nad oedd capel i'w gael yn y lle, ar stepyn drws yr hen Sal Timoth. Yr oedd bagad o bobl wedi ymgynnull yn nghyd i wrando arno, ac yn eu plith yr oeddwn inau a

Benjamin. Tynodd y pregethwr ryw wep annaearol cyn dechreu llefaru, a chefais y fath fraw wrth ei gweled, nes i mi dori allan i lefain, tra B., ar y llaw arall, yn ymddigrifo ynddi. Pan welais ef yn chwerthin, ac nad oedd un argoel am i'r pregethwr wneuthur niwed uniongyrchol i mi, dechreuais inau deimlo yn fwy cartrefol. Nid wyf yn cofio ei destyn, ond yr wyf yn cofio'n dda iddo ddechreu pregethu yn nghylch Job yn cael ei daro â chornwydydd gan Satan, a'i fod wedi bod ar ben y domen. "Pwy mae'n dweyd y taraws e'?" meddai B. yn fy ymyl wrth ei dad; ond yr unig atebiad a gawsai oedd: "Usht, grwt!" O'r diwedd, pan aeth yr hen Forris rhag ei flaen i ddweyd fod Job yn crafu y cornwydydd â chragen ar y domen, dyma Ben, ac yntau ei hun yn llygad-dyst o'r dygwyddiad, yn gwaeddi allan nerth ei geg: "Dyna storis! 'doedd dim un gragen yn ei ddwylo o gwbl, dim ond wy hwyad!"

Yr wyf yn cofio hefyd am un sylw arall o eiddo'r pregethwr. "Mae pechadur," meddai, "yn debyg i wehydd yn stofi ac yn dropo'r ede.'" Mae'r gymhariaeth hona wedi herio fy nghywreingarwch i'w deall byth oddiar y clywais hi.

Cyn hir, ffeindiais fy mod yn gallu prydyddu, ac yr wyf yn cofio'r dydd heddyw y pennill cyntaf a gyfansoddais. Yr oedd mab ieuanc a elwid Tomos, Felin-y-bwlch, yn ceisio caru Gwen, unig ferch y Felin-ban. Mae'n debyg nad oedd hi yn marw o gariad tuag ato ef, megys ag yr oedd ef tuag ati hi. Un nos Sadwrn, yn unol â rheol yr ardal, aeth Tomos i garu i'r Felin, ac wedi curo wrth ffenestr y llawr, ond yn methu cael un atebiad, dyma'n ceisio dyfeisio pa fodd y buasai yn myned i guro ffenestr y llofft, ac yn ffodus bu iddo ffeindio ysgol yn nghymmydogaeth y Felin, a dyma fe yn ei hanelu yn gryno at ffenestr y wely-ystafell lle gwyddai fod "byw ei lygaid" yn cysgu; ac yn ddystaw bach, a'i anadl yn ei ddwrn, dechreuodd ar ei daith garwriaethol tuag at i fyny; eithr gwarchod pawb! y wobr a dderbyniodd am ei gariad, yn nghyd a'i anturiaeth drafferthus, ydoedd ymdywalltiad o wlybaniaeth ar ei ben, i'r dyben o oeri tipyn ar dân ei serch, ys dywedai hi. Aeth son am yr amgylchiad, wrth gwrs, drwy yr holl bentref, a threiais inau fy awen ar y dygwyddiad. Gellir gweled, wrth ei hodl, mai ei chynnyg cyntaf ydoedd. O ïe, dylaswn ddweyd i mi, yn fy nghydymdeimlad â'r carwr bedyddiedig, roddi iddo y pennill, a chanmolodd yntau ef yn fawr; dywedodd ei fod yn falch iawn am dano; ac i brofi fod gweithredoedd yn llefaru yn uwch na geiriau, rhoddodd i mi getyn pib newydd, yn nghyd a dyrnaid o ddail-troed-yr-ebol, wedi eu crasu a'u malu yn dda. Dyma'r pennill:—

Pan ddwai i'th garu di etto, Gwen fach,
Bydd nyth y lygoden rhwng doi clust y gath,
A gwaed y gwibedyn yn troi'r Felin-ban,
A tithau, Gwen, druan, mor hen a dy fam!

Daeth yr ymfflamychiad boreuol hwna yn *gommon property* yr ardal braidd mor gynted ag yr esgorodd fy awen arno; adroddid ef gan hen ac ieuanc fel pe buasai yn ddarn o *Goll Gwynfa*. Newidiwyd fy ffug-

enw wedi hyn oddiwrth "Gorn Hela" yn "Ifor bach Cwm Gwys," am fy mod, rwy'n tybied, yn berthynas i'r hen brydydd hwnw, ac yntau, heblaw hyn, wedi ei eni yn yr un pentref. Daethum i feddwl, yn naturiol, wedi y gwrhydri awenyddol hwna, fod genyf fwy o hawl i fod yn y byd hwn, er fod gormod o anymwybyddiaeth diniwed y plentyn ynof etto i ymfalchio yn y clod ag oeddwn wedi ennill heb unrhyw ragfwriad am dano.

Yr oedd rhai hen gymmeriadau gwreiddiol iawn yn byw yn nghymmydogaeth y pentref na ânt byth o'm cof. Jeri'r Gwndwn Gwyn, Jaci'r gof bach, John a Bili o'r Bylarth, Shincyn Cae fadog, William y Sadler, Deio'r College, Catws, Eliezer Catws ei gwr, &c., am neilldduolion pob un o'r rhai gellid ysgrifenu cyfrol, a hono yn un bur ddyddorol. Llawer i orig ddyfyr a dreuliais yn eu cwmni, yn enwedig yn nghwmni John o'r Bylarth. Yr oeddwn yn cael dyddordeb mawr yn ei gwmni ef, oblegyd buasai'n siarad y cyfan ei hun. Yr oedd ganddo ddull o ofyn cwestiynau, ac hefyd eu hateb, cyn rhoddi cyfleusdra i neb arall wneuthur hyny. Er enghraifft, pe buaswn yn ei gyfarfod, annerchasai fi gyda'r gofyniad: "Shwd wyt ti heddy'? O, 'rwyt yn net; da machgen I." "O's llawer o hanes yn y papyr? Cato pawb! o's migynta; yn mhle bydd e os na fydd e yno? Mae hanes y byd a'r Bettws yn y papyr." "Gwed wrthoi Ifor, odi hi'r Frenines yn fyw o hyd? Dêr mi, yn fyw odi; fe fyse'r bobol yn mwrno ar ei hol pe byse wedi myn'd. Eiff hi ddim ar hast; mae'n cael byd net."

Rhywfodd cyffelyb oedd ei ddull pan gyda ei anifeiliaid ar y maes. Llawer gwaith y clywais ef, pan yn aredig, yn ymddyddan â Dol, y gaseg, nes peru i un nad oedd yn ei adnabod feddwl fod ple gwyllt rhwng dau ddyn ar y cae. "Wyt ti'n barod i starto; O fe 'rwyt; wel, cer gwpwl o game yto te. Wedes I ddim wrtho ti am fyn'd mor ffast. Cymmer dy wynt, lodes. 'Do's dim ishe i ti ladd dy hunan. Wôna! 'Rwyt ti nghlywed i'n nobl. Mae dy glyste di mor dene a nghlyste ine. Cymmer dy anal, Dol. Fe ddaw'r câ hwn i ben yn ddigon prydlon erbyn amser hau. Ac y mae Dai'r gwas, yn nghyd a Bocser Gellifawr yn ein helpi ni. Weldi ddim o nw'r fan draw? Eu gwel'd nw, gweli! Do's dim iws i ni gadw cwn a chyfarth ein hunain. Dyna ni wedi agor un gwys arall. Dere 'nawr, y morwm I."

Dyna grynodeb i chwi o areithyddiaeth John o'r Bylarth. Un diwrnod, wrth ddychwelyd o efail Pantllwyn, gwelwn ef yn ei gwrcwd yn nghornel cae bresych ag oedd newydd ei ffenso, ac yn ymddangos mewn myfyrdod dwfn. Nid oedd yn gwybod o gwbl am fy nyfodiad i'r lle, a chlywais ef yn ymson yn ddifrifol yn y modd canlynol:— "Os dwan nhw, ddwan nhw ddim; os na ddwan, fe ddwan." Gofynais inau iddo pa beth a olygai wrth y geiriau rhyfedd ag oedd newydd lefaru, pryd yr atebodd fod defaid Gwalter Dafydd Llwyd yn ei wneyd yn gwstwm bob blwyddyn i fwyta'r bresych can gynted ag oedd ef yn eu planu, ac os buasai'r defaid yn d'od eleni etto, fel arfer, na fuasai'r bresych yn d'od; ond os na ddelsai'r defaid, yna y delsai'r bresych.

Dowlais. D.I.D.

(I'w barhau).

DR. CHARLES LLOYD.

(Parhad o rifyn Ionawr, tudalen 10).

Mae yn anhawdd penderfynu pa faint o wir sydd yn yr awgrymiad mai siomedigaeth yn benaf a yrodd Mr. Lloyd i sefydlu achosion newyddion yn Mhantdefaid a Chapelgroes. Wedi'r methiant gyda ffermwriaeth, yr oedd yn awyddus iawn i fyned yn gydweinidog â'i gynathraw (parchus un amser yn ei olwg), y Parch. Dafydd Dafis, Castell Hywel, yn yr eglwysi y bu ei frawd Richard a'i dad, Dafydd Llwyd, unwaith yn gweinidogaethu. Rhaid addef fod y dymuniad yn un digon naturiol; ond, meddai'r hanes, ni fynai Mr. Dafis gael Bedyddiwr Socinaidd yn gydweinidog ag ef. Nid oedd Mr. Lloyd ar yr adeg hon, wrth bob tebyg, yn credu mewn bedydd o un math. Edrychai ar fedydd yn hytrach fel ordinhad yn perthyn yn unig i'r oes apostolaidd, ac nad oedd wedi ei bwriadu i oesoedd diweddarach. Pan y gadawodd Gymru, yr hyn a wnaeth yn fuan ar ol hyn, fe ddywed fod aelodaeth Capelgroes yn 80, a Phantdefaid yn 60. Buwyd yn ffodus iawn i sicrhau gwasanaeth y Parch. John James i'r cynnulleidfaoedd a adawyd felly yn amddifad megys ar gychwyniad eu gyrfa. Yr oedd Mr. James yn ddyn ieuanc, a dysgwylid llawer oddiwrtho.

Yn 1803 y darfu i'r Dr. C. Lloyd ddychwelyd i Loegr. Ymsefydlodd yn Palgrave, Suffolk. Agorodd ysgol yno, a chymmerodd ofal yr eglwys Undodaidd yn Diss, yn Norfolk, yr hon eglwys nid oedd yn mhell. Cawn iddo dderbyn ei daliad cyntaf fel gweinidog Diss, 8 Ebrill, 1803, a'r olaf 4 Hydref, 1811. Derbyniodd y teitl o Ll.D. o Glasgow yn 1809.

Symmudodd o Palgrave i Lundain, lle bu'n cadw ysgol yn Keppel Street am flynyddau. Bu farw pan ar ymweliad â'i berthynas yn Llanbedr 22 Mai, 1829, yn 63 oed. O'i wraig gyntaf, Letty, yr hon a fu farw yn Palgrave, 11 Rhagfyr, 1808, bu iddo amryw blant. O'i ail wraig, ni chafodd un plentyn.

Fel athraw, darfu i'w fanylrwydd gyda chynaniad geiriau ennill iddo y llysenw, "Quantity Doctor." Adroddir stori ddigrif am dano mewn cyssylltiad â'r Deon Llewellin, prif athraw'r Coleg yn Llanbedr. Yr oedd y deon a chyfaill yn cydrhodio'r brif heol pan y darfu i un o honynt yn nghwrs yr ymddyddan ddywedyd *Quantum sufficit* (sufficeit, gan osod yr acen ar yr ail sill). Yr oedd y Doctor yn clywed, ac ebe fe yn y munyd, "Quantum sufficit, quantum sufficit, I beg your pardon, gentlemen, for interrupting, but a bad quantity grates horribly on my ear." Ni ddywedir sut y derbyniodd y boneddwr y cerydd. Dywed y Parch. John Kenrick, yr enwocaf o'r rhai a fuont yn yr ysgol gyda Lloyd, ei fod yn ysgolhaig clasurol da, yn *growndio'r* bechgyn yn rhagorol. Creai ddyddordeb yn y gwersi trwy ei sylwadau manwl a phwrpasol. Ond yr oedd yn fyr ei amynedd, yn wresog ei dymher, ac yn ceryddu gyda gormod o nwydwylltedd. Yr oedd hefyd yn hawdd ei gynhyrfu, ac yr oedd yn rhy barod i ddrwgdybio.

Mewn llythyr at y Parch. John James, mae yn gwasgu arno y pwys o allu gwneuthur ei waith fel pregethwr yn rhwydd ac heb help papyr (Gweler Ymofynydd 1890, tud. 218). Mae yr awgrym yn werth sylw ein pregethwyr ieuainc. Fe ddybynir gormod ar y papyr yn fynych, a phan gollir y papyr, galerir weithiau na fuasid wedi cario'r bregeth yn yr het (chwedl yr hen Fethodyn gynt) yn lle mewn papyr. Mae y papyr yn burion yn yr ystafell—i gasglu'r defnyddiau, ac i gaboli y brawddegau, a gosod yr oll mewn trefn, ac wedi hyny, i ymgynnefino â hwy. Ond ail beth y dylai'r papyr fod yn y pwlpud, a thost yw gweled y pregethwr â'i ben yn ei gopi o ddechreu y gwasanaeth hyd ei ddiwedd. Yr oedd Lloyd ei hunan yn fwy o Sais na Chymro. Tebyg y gallai draddodi ei bregeth o'r frest yn Saesneg, ond nid oedd yn ddigon o Gymro i wneuthur hyny yn effeithiol yn y Gymraeg. Yr wyf yn cofio stori fach a glywais am dano yn pregethu un tro yn Mhantdefaid. Ar hirddydd Haf, yr oedd y gynnulleidfa yn lluosog, y dydd yn wresog, a'r ffenestri, o herwydd hyny, yn agored. Yr oedd hyny cyn adeiladu y capel presennol. Pan oedd y pregethwr yn ei lawn hwyl yn traddodi ei genadwri, ac heb ofalu digon am ei bapyrau rhyddion, dyma genad oddiwrth Rys o'r Mynydd yn dyfod trwy'r ffenestr, ac wthwm o wynt yn chwythu y dail cyssegredig ar wasgar yn mhlith y gwrandawyr. Pe dygwyddasai Mr. Lloyd fod yn ddyn ieuanc, hawdd ddigon fuasai dychymygu'r canlyniad. Tebyg y buasai yno'r fath gynhwrf yn y rhanau tu fewnol ag i analluogi'r pregethwr i fyned yn ei flaen. Nid felly gyda Lloyd, ond dygwyddai efe fod yn hen aderyn. Ni chynhyrfwyd mo hono'r un tipyn. Ni throdd ei wynebpryd nac yn goch nac yn wyn; ond *cool as a cucumber*, mor dawel a'r tes, arosodd nes dygwyd y dail i gyd yn ol iddo, ac yna'n hamddenol iawn, cymmerodd ei amser i'w trefnu yn eu lle. Wedi hyny, aeth yn ei flaen, fel pe na byddai dim wedi dygwydd.

Yr wyf wedi darllen lluaws o lythyron y Dr. Lloyd, ac nid wyf yn cofio am un na thybiwn fy mod yn gweled ynddo olion o'r yspryd a fu'n blino Pegi Pantstreimon, druan, yn blentyn bach. Yr oeddynt yn wastad yn alluog, yn fynych yn ddyddorol, ac yn adeiladol iawn; ond yn gynnar neu yn ddiweddar, byddai'r hen wendid yn sicr o ymddangos—ei bwmp ar rywun neu gilydd. Ni chredwn y gallai oddiwrtho. Amcanai yn dda, neu yn hytrach ni feddyliai un drwg; ond er ei alluoedd dysglaer a'i wybodaeth eang, ni allodd erioed gael ymwared oddiwrth ei angel drwg hwn. Gwelai y brycheuyn yn llygad pob un a gwrddai, ond nid ymddengys iddo erioed freuddwydio am y trawst mawr hwn oedd yn ei lygad ei hun.

Pan mewn hwyl dda, yr oedd yn foneddwr mewn yspryd, fel yr oedd bob amser yn ei wisg ac yn ei ymddangosiad. Yr oedd iddo bresennoldeb urddasol; yn wir, yr oedd yn destyn siarad pobl y wlad fel boneddwr "o waed coch cyfan." Cofiwn Miss Jones, Nantremenyn (coffa da am dani) lawer gwaith yn adrodd fel yr oedd hi a'r rhai oeddynt yn cydysgolia â hi tua chymmydogaeth Rhydowen, yn ei wylied yn dyfod i lawr ar gefn ei geffyl o gyfeiriad Pylle'r Bryn, gydag ednygedd oedd braidd yn berlesmeiriol. Ymfalchiai yn ei wisg pan

yn fyfyriwr yn y Coleg, er na allai fforddio llawer at ddillad ar yr adeg hono. Yr oedd yn *gent* wrth natur ac o ddygiad i fyny. Credwn y gallai Miss Jones fanylu ar bob pilyn o'i wisg ag oedd yn y golwg, ac ar bob botwm, hyd y nod wedi i hanner can' mlynedd fyned heibio. Nid oedd Miss Jones ond deuddeg oed pan fu farw'r Doctor.

Rhag dygwydd fod beio ar y cynllun wyf wedi gymmeryd i osod ychydig o hanes Dr. Charles Lloyd gerbron y cyhoedd, ni fydd allan o le fe allai imi wneuthur tipyn o ymddiheurad. Wrth gwrs, mi allaswn adael i'w goffadwriaeth orwedd dan fantell annghof, ond fy nheimlad oedd ei fod yn teilyngu gwell tynghed nâ hyny. Creder fi, ni wnaethwn ysgrifenu gair byth am dano oddigerth fy mod yn teimlo parch diffuant iddo, parch i'w ddiwydrwydd a'i waith ardderchog, parch i'w alluoedd mawrion ac i'w rinweddau dysglaer. Dan rai amgylchiadau yr wyf yn edmygydd o'r hen ddiareb Rufeinig—"Am y meirw, dim ond sy dda;" a'r amlygiad o'r un yspryd fel y ceir ef mor gyffredin ar gerryg beddau ein mynwentydd. Nid gwir fodd bynag yw lleferydd y cerryg beddau bob amser, ac yn sier ni ddylid annghofio y ddiareb arall—"*Nil de mortuis nisi verum*"—"Dim am y meirw ond sydd wir." Dywedir am dri phrif ddramatyddion Groeg eu bod yn amrywio yn eu cais a'u cynllun yn debyg i hyn. Ceisiai un ddarlunio pob caritor yn llythyrenol fel yr oedd, gan ei wneuthur yn *true to nature*, chwedl Wil Bryan; tra'r oedd yr ail yn taflu'r ordd — yn gwneuthur *exaggeration* o nodweddion amlwg pob caritor, yn ei ddarlunio yn waelach nag yr oedd, fel trwy lymwawd digrif y gallai yru câs ar y ffaeleddau; cais y trydydd oedd eu darlunio *fel y dylent* fod, hyny yw, ceisiai osod *ideal* uchel gerbron.* Mae genym ninau ein hamrywiaeth yn mhlith bywgraffwyr ac arlunyddion heddyw—amrywiaeth yn seiliedig dichon ar yr amcan mewn golwg. Gallwn feddwl mai prif amcan Harry Furniss, megys Punch a'i frodyr yn y grefft, yw creu dyfyrwch ac achosi chwerthin. Amcanai Phidias, yr enwocaf o'r cerflunyddion Groegaidd, osod gerbron, nid y talcen slip na'r *bald mediocrity*, ond yr *ideal beauty*, y dychymyg uwchaf o brydferthwch. Pan yn cerfio, nid oedd yn dylyn y llythyren, nid oedd yn darlunio yr hyn a welai â'r llygad allanol, ond yr oedd yn delfrydoli, yn *idealiso*—mewn gair, yr oedd yn proffwydo. Dywedir nad oedd y penau yr edrychai Phidias arnynt ar heolydd Athen, yn myned dim yn nes i unionsythedd nâ 75°, tra y gesyd ef ei *ideal of beauty* o fewn i ddim i 90°, y llinell y mae dynoliaeth wareiddiedig Ewrop oll bron wedi ei chyrhaedd erbyn heddyw. Yn debyg i Phidias, nid oedd Joseph Edwards, wrth gerfio *bust* o farmor gwyn i Thomas Stephens o Ferthyr, yn llythyrenoli gormod: amcanai yn hytrach droi allan ddarlun cywir o Thomas Stephens, ac felly y gwnaeth, ond mai delfrydoliad *(idealisation)* o Thomas Stephens ydyw. Nid oes genyf fi ddim yn erbyn cynllun Furniss na Phidias, fel y cyfryw, ond nid wyf wedi dylyn y naill na'r llall wrth geisio tynu darlun Dr. Charles Lloyd. Yn hytrach,

* Yr wyf, wedi darllen rhai o chwareugerddi Æschylus, Euripides, a Sophocles, ond nis gallaf eu ffitio i fewn i'r darluniad uchod.

yr wyf wedi dylyn y cynllun a gymmeradwyai Oliver Cromwell (os efe hefyd). "Paint me as I am, scars and all," oedd ei orchymyn ef i'r arlunydd. Dyna'n gywir fel y gwneir ag enwogion y Beibl. Cydnabyddir mai dynion oeddynt, ac ni chelir eu ffaeleddau. Edrychwn ninau ar y cyfryw ffaeleddau, nid i'w gwawdio, ond i'w gochelyd; ac ar eu rhinweddau i'w dylyn.

Cyhoeddodd Lloyd lawer yn ei ddydd. Mae rhai o'i fywgraffiadau yn y *Monthly Repository* yn ddyddorol iawn, yn enwedig y rhai ar T. Thomas o Lanfair ac ar David Jenkin Rees o Lloydjack. Dyma gyfres o'i weithiau cyhoeddedig, oll yn Saesneg—1. Dwy bregeth ar Zel Gristnogol, 1808. 2. Sylwadau ar y dewisiad o ysgol, 1812. 3. Manylion bywyd gweinidog Ymneilldnol, wedi ei ysgrifenu ganddo ei hun, 1813. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn ddienw. Cawn ynddo ddarluniau o luaws o bersonau, gan fwyaf yn anffafriol iawn. Nid ydynt yn cael eu henwi, ond hawdd eu hadwaen. Mae y gwaith yn ddyddorol ac yn alluog. Camgymmeriad wneir gan Gwnionydd yn *Enwogion Ceredigion*, pan y dywed fod y gwaith hwn wedi myned trwy amryw argraffiadau. Ni chyhoeddwyd ond un argraffiad, a gwnaeth yr awdwr ei oreu yn fuan wedi ei ymddangosiad i rwystro cylchrediad hwnw. 4. *Teithiau Gartref*, 1814, dwy gyfrol. 5. *The Monthly Repository Extraordinary*, 1819. 6. *Epistolau St. Paul a St. Iago*, gan Philalethes, 1819. 6. Yn y *Monthly Repository* bu mewn dadl â'r Dr. John Jones, y geiriadurwr enwog ar bynciau Groeg. Bu'n beirniadu y Dr. Lant Carpenter hefyd yn yr un cyfnodolyn, 1815. [Gweler *Particulars of the Life* (1813), *Mon. Rep.* 1809, 1819, 1829, *Christian Reformer*, 1831, 1852. Ysgrifenwyd yr erthygl yn yr olaf gan R. Brook Aspland, ond yn amlwg ar dystiolaeth y Parch. Tim. Davis, Evesham. *Dictionary of National Biography.*] S. N. S.

CYMMANFA GANU 1894.

Mae hon bellach wrth y drws, a'r rhagolygon am Gymmanfa lwyddiannus yn odidog iawn. Credwn y bydd cydgyfarfyddiad cynnifer o Undodiaid o bob parth o Gymru, yn Abertawe, ar adeg eu huchelwyl gerddorol, yn olygfa na welwyd erioed o'i chyffelyb yn hanes yr enwad. Mae yr arweinydd a'r ysgrifenydd wedi gwneyd yr oll yn eu gallu, i gael y telerau goreu gan gwmniau y rheilffyrdd, ac wedi hir ohebiaeth, dyma sefyllfa pethau yn bresennol. Ceir trên o Lanbedr, a'r gorsafoedd rhwng hyny a Phencader, am 3s. 3c. yr un, ac o Landyssul am 3s. yr un. Bydd trên pobl Merthyr ac Aberdar yn 2s. 6ch. yr un. Bu yr arweinydd a'r ysgrifenydd hefyd, yn Abertawe, yn trefnu y lle, a phethau ereill. Yr oeddem wedi gobeithio cael benthyg capel, am y buasai hyny yn rhatach, ac o bossibl, yn fwy cyfleus i ganu, ond o herwydd amgylchiadau nad oes eisieu eu henwi yma, methwyd yn hyn, a gorfu arnom hurio yr Albert Hall, ond am brisoedd tecach na thair blynedd yn ol. Felly yn y neuadd hon y cynnelir ein cymmanfa eleni etto. Mae lluaws wedi awgrymu y dymunoldeb o gael ymborth—pryd o dê, dyweder, gyda'n gilydd, fel y cafwyd o'r blaen, ond gan fod yr

anturiaeth dipyn yn fawr, a wna ein heglwysi gymmeryd y cwestiwn hwn i ystyriaeth, a danfon eu hateb i mi cyn gynted ag y byddo modd —Ai priodol fyddai cael tê mewn rhyw fan canolog, ac ar ba delerau? Rwy'n meddwl y talai y ffordd i'w roddi am ddim i bob plentyn. Cymmered yr eglwysi y mater dan sylw. J. Hathren Davies.

CYFARFODYDD CHWARTEROL Y PASC.

Cynnaliwyd y cyfarfodydd uchod yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, Mercher a Iau, yr 28ain a'r 29ain o Fawrth, pan y cawsom y pleser o weled y gweinidogion canlynol:—T Thomas, C.C., Pantydefaid; yr Henadur J. Davies, Alltyplacca; R. C. Jones, Llanbedr; W. James, B.A., Llandyssul; J. H. Davies, Cefncoed; W. J. Davies, Llandyssul; J. J. George a Jenkin Thomas, Aberdar; J. F. Jones, Cwmbach; W. J. Phillips, Nottage; Enoch Jenkins, Capelygroes; Ivor Davies, Dowlais; W. Griffiths, B.D.,Ph.D., Pontypridd; George St. Clair, F.G.S., Caerdydd. Cymmerasant ran, fwyaf o honynt, yn y cyfarfodydd.

Cafwyd cynnadledd yn y prydnawn dan lywyddiaeth gweinidog y lle, pan y darllenwyd dau bapyr ar—"Y Beibl yn Ngoleuni Beirniadaeth Ddiweddar,"—un yn Gymraeg ar yr Hen Destament, gan Dr. Griffiths; a'r llall yn Saesneg, gan y Parch. G. St. Clair, ar y Testament Newydd. Nid llawer o sylw mae y pwnc hwn wedi gael hyd yma yn Nghymru: tebyg y ceir llawer mwy yn ystod y deng mlynedd nesaf. Ychydig wyr hyd y nod y gweinidogion, oddieithr ambell i un o'r rhai ieuainc, am y pwnc hyd yma. Nid yw y mwyafrif ddim am wybodaeth o'r cyfryw gyfeiriad; ac os dygwydd i un o'r gweinidogion ieuainc, yn ei frwdfrydedd i gyhoeddi y gwir, anfon gair yn gynnil i un o'r cyfnodolion, mae yn debyg o gael awgrym o fath a fydd yn foddion i'w rwystro i gyflawnu y fath amryfusedd yn ol llaw. Mae'r cais wedi ei wneuthur ragor nag unwaith.

Ar ol tipyn o de, cafwyd ail gynnadledd, pan y buwyd yn ystyried pa mor bell y gellid dwyn y ddwy gymdeithas, yr un Gymreig a'r un Seisnig, i undeb â'u gilydd, er mwyn cydweithrediad. Llwyddwyd hwnt i'n dysgwyliadau; a dysgwyliwn, cyn hir, weled y cynllun wedi ei addfedu, ac yn barod i'w argraffu yn yr Ymofynydd. Credwn fod gwaith mawr a phwysig yn aros Undodiaid ar faes crefydd. Eisieu mwy o gred ynom ein hunain, ac yn y ffydd a broffeswn, sydd arnom, ac yna mwy o frwdfrydedd dros ein ffydd, ac o weithgarwch o'i phlaid. Megys yn Myddin yr Iachawdwriaeth, dylai pob aelod deimlo ei fod yn filwr yn myddin yr Iesu, a syrthio i'r rhenc, yn benderfynol i gyflawnu ei ran, a dwyn tystiolaeth dda dros ei ffydd.

Da genym hyspysu fod y cyfarfodydd hyn wedi troi allan yn llwyddiant ardderchog, a thaer ddymunwn iddynt fod yn adfywiad i'r achos yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Yr oedd y tywydd yn hyfryd (myn rhai o'r enwadau fod yr Undodiaid yn cael tywydd gwlyb a garw yn wastad ar adegau fel hyn), yr oedd y pregethau o'r dechreu i'r diwedd

o radd uchel, y canu yn dda, y gwrandawyr yn astud, a'r cynnulliadau yn lluosog. Teimlai pawb yn falch fod Mr. Thomas wedi gallu dyfod drosodd, a'i fod yn edrych mor dda ar ol y pwl *influenza* a gafodd yn ddiweddar. Pregethodd ar "Grefydd Bur" i foddlonrwydd pawb.

Ar ddiwedd y cyfarfod nos Iau, darfu i'r gweinidog, ar ei ran ei hun a'r gynnulleidfa, dalu diolch i'w frodyr yn y weinidogaeth, ac i bawb ereill, o bell ac agos, a roddasant eu cynnorthwy i wneuthur y cyfarfodydd hyn yn llwyddiannus, a dadganodd ei deimlad nad oedd yn dysgwyl y cawsai efe gyfleusdra arall i lywyddu cyfarfod o'r fath yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar.

Cynnelir cwrdd yr Haf yn Mhantydefaid; Dr. Griffiths i bregethu y bregeth.

UN OEDD YNO.

Manion ac Hanesion.

CWRTNEWYDD.—Ar y 9fed o Fawrth, cynnaliwyd gwyl dê mewn cyssylltiad ag Ysgol Sul Capel-y-Bryn. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf bu aelodau ieuengaf yr ysgol hon yn hynod ffyddlon yn eu mynychiad o honi, a'r teimlad fodolai yn mhlith yr henafgwyr oedd, y dylasai rhyw gydnabyddiaeth gael ei gwneyd i arddangos eu cefnogaeth i'r ffyddlondeb hwn. I'r perwyl hwn penderfynwyd rhoddi gwyl o dê a bara brith i aelodau yr Ysgol Sul,—nythle a magwrfa Undodiaid y dyfodol. Parotowyd digonedd o luniaeth ar gyfer yr achlysur, a gosodwyd y cwbl allan mewn modd destlus gan nifer o foneddigesau ieuainc ac hawddgar, yn yr hen gapel sydd yn llechu yn nghesail Foel-y-Bryn. Anffafriol iawn oedd yr hin, ond gellir dweyd na fu hyny yn un rhwystr ar ffordd y plant i fwynhau eu hunain. Wedi diwallu angenrheidiau y dyn anianol, ymneillduwyd i'r capel newydd i fwynhau gwledd o ansawdd wahanol. Cyn amser dechreu yr oedd yr adeilad helaeth wedi ei orlenwi gan bobl o bob rhan o'r plwyf, ac am dair awr cawsom adroddiadau difyr ac adeiladol, dadleuon dirwestol, moesol, ac hyfforddiadol, unawdau, deuawdau, a phedwarawdau lleisiol ac offerynol, a chanigau prydferth gan y côr dan arweiniad medrus y brawd gweithgar a diymhongar, Mr. Thomas Davies. Cadeirydd ac arweinydd y cyfarfod oeddent y Parch. J. Davies a Mr. Gwarnant Williams, ac nid yw yn hawdd cael dau mor ddeheuig i lywyddu ein cyfarfodydd.

PRIODAS.—Chwefror 23, trwy drwydded, yn Llanbedr, gan y Cofrestrydd, Evan Thomas, Pantmeddyg, Llanwenog, â Mari, unig ferch y diweddar Evan Bowen, Blaenafon, Llanllwni.

Ennillwyr o hyn allan—a fyddont
Heb feddu drwg anian;
Diofid fywyd i Ifan
A mawr lwydd fyddo i Mair lân.

Uniawn law Rhagluniaeth—i dra hwylus
Droi olwyn bywioliaeth;
Byw er 'gwell' b'ont heb i'r 'gwaeth'
Roi sêl ar oes o alaeth.

Cwrtnewydd. GWARNANT WILLIAMS.

Marwgofion.

Mawrth 24, Evan Evans, Cilgellisaf, Pencarreg, yn 81 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig wedi gweled hir ddyddiau, a mwynhaodd iechyd da drwy gydol ei oes hirfaith, hyd o fewn i rai misoedd i'w farwolaeth, ac yr oedd mor sionc braidd a phe na fyddai ond ugain oed. Goddiweddwyd ef gan afiechyd, a chyfyngwyd

ef i'w wely yn lled ddisymwth, a'r farn gyffredin y pryd hwnw oedd na fyddai iddo gael ei adferu mwy i'w gynnefinol iechyd, a phrofodd y broffwydoliaeth yn wir, ac ar y dydd uchod ehedodd yr elfen fywydol allan o'r daearol dŷ. Gyda'i fab yn Cilgell a Choedmore y treuliodd flynyddoedd diweddaf ei oes, ac yr oedd wedi bod erioed, a pharhaodd hyd y diwedd, yn dad da, tyner, gofalus, a mwy llafurus na'r cyffredin. Gweinyddwyd arno'n dyner ac ymroddgar yn ei afiechyd gan ei fab a'i ferch-yn-ngyhfraith. Dyn syml, didwyll, diddichell, ac hawddgar oedd Evan Evans, a phawb, fel canlyniad, yn hoff o hono yn ei ardal. Ar ddydd ei angladd, daeth torf luosog yn nghyd i dalu iddo y gymmwynas olaf, a dygwyd ei gorff lluddedig i gael gorphwys mewn bedd oedd yn ymyl gweddillion ei anwyl briod yn Mynwent Brondeifi. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones.

Mawrth 24, yn 74 mlwydd oed, Mr. John Jenkins, Penbrynmawr, Llanfihangel-Ystrad. Ar y dydd uchod aeth yr ymadawedig allan ar ol ei foreufwyd i edrych am y praidd, ac yn mhen ychydig amser ar ol hyny cafwyd ef wedi marw mewn cae cyfagos. Claddwyd ef y Mawrth canlynol yn mynwent Rhydygwin, pan yr oedd yn bresennol nifer fawr o berthynasau a chyfeillion. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r fynwent gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o deulu tra adnabyddus yn sir Aberteifi. Efe ydoedd trydydd mab y diweddar Mr. Jenkin Jenkins o Blaenplwyf-Ystrad. Yr oedd yn frawd i'r Henadur Jenkins ac i Amnon 2il, ac yn dad i'r diweddar Aeronian Jenkins. Er na ddarfu erioed geisio llanw swyddi pwysig mewn cymdeithas, etto yr oedd yn adnabyddus mewn rhan helaeth o'r wlad fel dyn o feddwl cryf, sylw-manwl, ac fel cydymaith dyddan. Er ei fod yn gymmharol ddiddysg, yr oedd ynddo duedd gref i ymdrafod â'r pynciau athronyddol uwchaf. Tebyg mai fel prydydd y byddai yn fwyaf adnabyddus i'r rhan amlaf o ddynion. Yr oedd wedi ei eni yn brydydd. Byddai y ddegfed o'i gyfansoddiadau ar wahanol adegau yn ddigon i wneyd i fyny gyfrol drwchus. Yr oedd ef ei hun yn hollol ddiofal am eu cadw, ond y mae llawer o honynt wedi eu trysori yn nghof gwahanol bersonau yma a thraw. A'i gymmeryd gyda'i gilydd, yr oedd "Cerngoch" yn ddyn na welir ei gyffelyb yn fuan.

"Mwy na ddygwch mo'i rinweddau
Na'i wendidau i oleu'r dydd," &c.

Ebrill 1, ar ol misoedd o gystudd, yn 67 mlwydd oed, Mrs. Hannah Jones, gwraig Mr. Thomas Jones, Dolgoch, ger Mydroilyn, yn mhlwyf Llanarth. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent eglwys Ciliau Aeron. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a gweddiwyd wrth y drws gan y Cynghorwr Morgan Evans, Y. H. Yr oedd yr angladd yn lluosog iawn; yn arwydd o'r parch a deimlid at yr ymadawedig yn y gymmydogaeth. Yr oedd wedi bod am flynyddau yn aelod ffyddlon o Eglwys Crist yn hen gapel y Ciliau. Bydded i'w phriod a'i dwy ferch gael modd i blygu i'r drefn ddoeth.

Ebrill 2, Evan Lloyd, baban bychan David ac Anne Lloyd, Pleasant Hill, Llanbedr, yn 6 mis oed. Ar ddydd yr angladd, gwasanaethodd ficer y plwyf. Claddwyd yn Mynwent Capel-y-groes, pryd y gwasanaethwyd yno gan R. C. Jones, Llanbedr.

Ebrill 3, yn 82 mlwydd oed, Mrs. Evans, gweddw y diweddar Barch. David Evans, B.A., Maesymeillion. Er yn egwan o gorff er's blynyddau, goroesodd ei hanwyl briod am naw mlynedd yn mron. Hi ydoedd unig blentyn y diweddar Benjamin Evans, Gelynen, plwyf Cilrhedyn, heb fod yn nepell o Gastellnewydd-Emlyn. Ymddengys fod ei thad yn un o Undodiaid boreuaf y Deheudir. Gadawodd y Bedyddwyr Trindodaidd yn ystod y ddadl fawr a dorodd allan yn eu mysg tua diwedd y canrif diweddaf mewn perthynas i'r Drindod, Pechod gwreiddiol, a Gras Cadwedigol. Yr amser hwnw y darfu i'r diweddar Benjamin Phillips, St. Clears; Benjamin Evans, Pantteg; John Griffiths, Llandyfan; William Thomas, Llangyndeyrn, &c., ymadael â'r Bedyddwyr a dyfod yn brif golofnau Undodiaeth yn Neheudir Cymru. Etifeddodd Mrs. Evans alluoedd naturiol cryfion ei thad, ac yr oedd yn Undodwraig gadarn, yn gystal ag yn fenyw dda, Gristionogol; a bydd ei choffadwriaeth yn fendigedig gan luaws mawr o gyfeillion ag oeddent wedi cael y

fraint o'i hadnabod. Yr oedd wedi ennill parch pawb a'i hadwaenent trwy ei thynerwch a'i lledneisrwydd a'i ffyddlondeb diysgog i eglwys ei thadau; a chyda'i ffyddlondeb i achos y gwirionedd, yr oedd ynddi y fath yspryd o haelioni ag oedd yn peru iddi'n wastad chwilio am le i wneyd daioni. Yr oedd ei hoffder o blant wedi ei gwneyd yn anwyl i galonau lluaws o rai bychain ei chymmydogaeth. Cydnabyddid yn gyffredin gan y lluaws cyfeillion a ymwelent â hi, fod treulio awr yn ei chyfeillach yn gadael y fath argraff ddaionus ar un, fel yr oedd yn ei gadael gyda nerth adnewyddol a hiraeth am fywyd uwch. Claddwyd hi ar y 6ed yn medd ei hanwyl briod yn mynwent newydd Llwynrhydowen. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. Proff. Evans, a gweddiwyd gan y Parch. R. C. Jones. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. Gynghorwr T. T. Traddodwyd ei phregeth angladdol yn Alltyplaca ar foreu Sul, y 22ain. Boed amddiffyn y nefoedd ar ei merch fabwysiedig a'i hamgeleddodd mor dyner yn ystod blynyddoedd hirion ei llesgedd a'i chystudd.

Ebrill 4, Margaret Ellen Evans, merch John a Martha Evans, Felin Tyhen, Llanbedr, yn 20 mlwydd oed. Cafodd ein chwaer ieuanc hon gystudd maith ac hynod galed, ac er mor anwyl oedd gan dad a mam, ac ereill, ac er mor anhawdd oedd ymadael, da oedd ganddynt ei gweled yn cael rhyddhad o'i phoenau. Gadawodd o berthynasau agos mewn galar dad a mam, brodyr a chwiorydd. Ar ddydd yr angladd, gwasanaethwyd yn y tŷ gan ficer y plwyf. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yno gan R. C. Jones.

Ebrill 4, Evan Davies, Blaenwaen, Cellan, yn 63 mlwydd oed. Yr oedd arwyddion adfeiliad i'w gweled ar ein cyfaill ymadawedig er ys cryn amser, ac etto, yr oedd yn alluog, i fesur helaeth, i ganlyn ei orchwylion arferol hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farwolaeth, ac ni chafodd ond cystudd ysgafn yr wythnosau hyny, a thebyg iddo gael myned drwy'r adwy heb wybod ond ychydig neu ddim am y loesion hyny y byddai weithiau yn son am danynt. Y mae pawb gwir gyfarwydd ag ef o fewn cylch ei adnabyddiaeth eang yn cwyno o herwydd ei ymadawiad. Gwyddom nad oedd yn berffaith, ond yr oedd yn perthyn i'w fywyd nodweddion heirdd a swynol neillduol. Nodweddion ei fywyd masnachol oeddent unplygrwydd, amynedd, a charedigrwydd. Dywedai cyfaill wrth ysgrifenydd y llinellau hyn fod pawb ag oedd yn ei adnabod, ac wedi gwneyd dim ag ef, yn siarad yn barchus am dano, ac y mae hyn yn llefaru'n uchel am ddoethineb a charitor un ag oedd wedi masnachu cymmaint â thrigolion tiroedd Morganwg ac Aberteifi. Bu'n aelod ffyddlon am lawer o flynyddau yn Eglwys Caeronen, ac yn ddiacon am bum' mlynedd ar hugain. Nid oedd ei le nemawr, os byth, yn wag, pan y gallai fod yn bresenol, a phob amser yn hawdd ei drin, a diddichell. Yr oedd ei angladd yn un o'r rhai mwyaf yn Cellan o fewn cof, a phawb yn cwyno ac yn galaru. Gadawodd o berthynasau agos mewn galar dair chwaer a llawer o neiaint a nithod. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd gan R. C. Jones, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Ebrill 11, Evan Morgan Jones, Coedmorefawr, ger Llanbedr, yn 31 mlwydd oed. Mellten fu'n achos o farwolaeth y dyn ieuanc hwn, a thorwyd ef i lawr mewn amrantiad yn nghanol ei obeithion a'i gynlluniau. Yr oedd ei frawd ac yntau gyda'u gilydd ar y maes yn gweithio, ac wedi troi at y clawdd i gysgodi oddiwrth gawod, o fewn rhyw ddeg llath y naill i'r llall, a chafodd un ei gymmeryd a'r llall ei adael. Gwelodd ei frawd ef yn cwympo, a rhedodd ato mor fuan ag y medrai; ond ni chafodd ganddo un gair —yr oedd yr elfen fywydol wedi ehedeg ymaith er galar a cholled i'w dad oedranus, ei frawd, a'i dair chwaer, heb son am gyfeillion a pherthynasau ereill. Yr oedd yn ddyn ieuanc llawn bywyd ac egni, yn ddarllenwr mawr, yn feddiannol ar feddwl cryf a chof gafaelus. Byddai ar y Sul yn mynychu Capel Brondeifi, ac yn selog dros lwyddiant yr achos, a dywedir fod ei sel yn myned fwy, fwy, fel yr oedd yntau yn cynnyddu mewn dyddiau. Gobeithio y bydd ei symmudiad sydyn yn symbyliad i ddynion ieuainc y gymmydogaeth i ddyblu eu diwydrwydd mewn gwneuthur daioni, ac i ddwyn eu calon i ddoethineb. Ar ddydd yr angladd, daeth torf hynod luosog yn nghyd i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr, ac i hebrwng corff y dyn ieuanc i'r bedd yn Mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.



Mr. David Eiddil Jones.